SKAPW54

Adnabod pryderon diogelu mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn y lleoliad gwaith chwarae

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn dynodi'r gofynion sy'n berthnasol i ddiogelu ac a ddylai fod yn rhan annatod o'ch holl waith gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r safon yn rhoi sylw i'r angen i ddeall diogelwch a'r hyn sydd angen ei wneud mewn achosion o niwed neu gam-drin posib neu  wirioneddol

Mae a wnelo'r safon hefyd â'r angen i ddatblygu perthnasau sy'n hyrwyddo diogelu, hyrwyddo hawliau a chynhwysiant, gweithio mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo lles a chenogi plant a phobl ifanc i gadw eu hunain yn ddiogel.

**Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:**

1. adnabod pryderon diogelwch
2. cyfrannu at y gwaith o ddiogelu plant a phobl ifanc
3. cefnogi plant a phobl ifanc i gadw eu hunain yn ddiogel

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr chwarae sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad gwaith chwarae gyda'r prif fwriad o ddarparu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc y medran nhw eu dewis o'u gwirfodd a'u cymhelliad eu hunain. Argymhellir y dylai staff fod wedi derbyn lefel briodol o hyfforddiant diogelu plant a bod yn gyfarwydd gyda pholisïau a gweithdrefnau eu mudiad o ran ymdrin â sefyllfaoedd lle amheuir fod camdriniaeth yn digwydd, a sut i ddatgelu hynny.

**Mae'r safon hon yn ategol i'r ddogfen Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae angen i weithwyr chwarae fod yn gyfarwydd â'r rhain, a lle bo'n bosib, eu defnyddio wrth eu gwaith ac wrth adlewyrchu.   **

Adnabod pryderon diogelu mewn perthynas â phlant a phobl ifanc yn y lleoliad gwaith chwarae

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*